

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR TRWYDDEDU 2003**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu 2003 a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 12 Mawrth 2019
am 4.30 pm ym Siambr y Cyngor, Cwm Clydach, CF40 2XX.

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trwyddedu 2003 Aelodau oedd yn
bresennol:-**

Y Cyngorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cyngorydd D Williams	Y Cyngorydd S Powderhill
Y Cyngorydd E Webster	Y Cyngorydd T Williams
Y Cyngorydd L Jones	Y Cyngorydd W Lewis
Y Cyngorydd S Morgans	Y Cyngorydd A Cox
Y Cyngorydd P Howe	

Swyddogion oedd yn bresennol

Ms L Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr M Owen, Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol

14 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn
â'r agenda.

15 Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn

PENDERFYNWYD nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a
chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu
mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf
Trosedd ac Anrhefn.

16 Cofnodion

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr,
2018 yn rhai cywir.

17 Adolygiad o Ddeddf Trwyddedu 2003 ac o Ddeddf Gamblo 2005

Cyflwynodd Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd ei adroddiad chwarterol i'r Pwyllgor.
Roedd yn adroddiad chwarterol ar faterion perthnasol o ran Deddf Trwyddedu
2003 a Deddf Gamblo 2005, ynghyd â materion ategol sy'n codi o gyfrifoldebau'r

Pwyllgor.

Dywedwyd bod cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer yr Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro (TEN) yn ystod y chwarter. Roedd hyn yn bennaf oherwydd digwyddiadau a gynhaliwyd ar gyfer y Nadolig a Nos Galan.

Dysgodd yr Aelodau fod nifer o geisiadau wedi'u herio ers yr adroddiad cryno diwethaf a bod modd i'r swyddog ddarparu diweddariad mewn perthynas â'r cais am amrywio'r Drwydded Safle ar gyfer Club Ice, Pontypridd. Cadarnhawyd bod yr Is-pwyllgor wedi gwrthod y cais ar gyfer nos lau, ond wedi rhoi'r Drwydded ar gyfer nos Wener a nos Sadwrn. Rhoddwyd yr amrywiad hefyd ar nos Sul i'r eiddo agor i'r cyhoedd rhwng 11:00 a 01:30, gan gyflenwi alcohol rhwng 11:00 a 01:00, yn amodol ar nifer o amodau ychwanegol.

Cafodd Aelodau wybod na chafodd unrhyw adolygiadau nac apeliadau eu cyflwyno ers yr adroddiad diwethaf.

Cyfeiriodd y swyddog yr Aelodau at adran 4.3 yr adroddiad lle mae arolygiadau o safleoedd a thor rheolau'n cael eu hamlinellu. Roedd yr aelodau'n falch o glywed bod 89% o'r adeiladau a arolygwyd yn cydymffurfio'n gyffredinol er bod oedi wedi bod cyn cynnal arolygiadau oherwydd cyfnod y Nadolig.

Cyflwynodd y swyddog drosolwg i'r Pwyllgor o'r gwaith a gafodd ei gyflawni gan y Garfan Drwyddedu ledled RhCT yn ystod y cyfnod. Cafodd y Pwyllgor wybod y bu gostyngiad sylweddol yn nifer y cwynion a dderbyniwyd ar gyfer ardal Cwm Rhondda yn ystod y cyfnod, yn ogystal â gostyngiad mewn digwyddiadau y cafodd yr heddlu wybod amdany'n nhw. Siaradodd y swyddog yn gadarnhaol am 'Ymgyrch Marsileo', a ffurfiwyd yn ardal Cwm Rhondda i sicrhau bod yr Amcan Trwyddedu 'Amddiffyn Plant rhag Niwed' yn cael ei hyrwyddo. Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod pob eiddo trwyddedig, ar wahân i un eiddo sy'n peri pryder, wedi bod yn barod i gydymffurfio yn ystod yr arolygiadau. Dywedodd y swyddog hefyd na chafodd unrhyw bryderon eu codi yn dilyn nifer o archwiliadau i eiddo trwyddedig gan Safonau Masnach er mwyn gwirio lleoliadau peiriannau hapchwarae.

Yn dilyn pryderon a godwyd yn y cyfarfod diwethaf ynghylch y gwerthiannau dan oed honedig yng Nghwm Cynon, roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod gweithdy wedi'i gynnal, a bod 16 o bobl wedi cymryd rhan. Roedd hwn yn weithdy gwirfoddol ac roedd yr adborth yn gadarnhaol, felly mae modd cynnig y digwyddiad eto.

Aeth y swyddog ymlaen i siarad am yr ymweliad safle diweddar a gynhaliwyd yn ardal 'Y Tymbl', Pontypridd, lle'r aeth Aelodau o'r Pwyllgor Trwyddedu gyda swyddogion i ymweld â'r ystafell reoli TCC, y safle tacsis a rheolwyr yr eiddo trwyddedig yn y cyffiniau. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa o'u cais i ymweld ag ardal Aberdâr, a nodwyd y byddai'r swyddogion yn ystyried trefnu hyn ar gyfer y dyfodol.

Cafodd yr aelodau y newyddion diweddaraf am y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus a oedd wedi'i roi ar waith ar 1 Medi, 2018 a nodwyd bod y parthau gwahardd yng nghanol trefi Pontypridd ac Aberdâr yn parhau i gael eu monitro gan yr heddlu a staff yn yr Awdurdod Lleol. Eglurwyd bod y nifer helaeth o achosion wedi digwydd ym Mhontypridd, lle cafodd alcohol ei atafaelu.

Mewn perthynas â Deddf Gamblo 2005, cafodd yr Aelodau wybod nad oedd

unrhyw newidiadau mawr i'r sefyllfa adennill ffioedd blynyddol o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth gadarn sy'n caniatáu tynnu'r drwydded/hawlen yn ôl am beidio â thalu ffioedd priodol.

Mynegodd un Aelod bryderon ynglŷn â defnyddio Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro i brofi hyfywedd gwneud cais am Drwydded Safle. Dywedodd y Swyddog wrth yr Aelod fod yr Adran Drwyddedu yn ymwybodol o fusnesau sy'n defnyddio'r dull hwn, ac yn defnyddio dulliau monitro i sicrhau bod tystiolaeth briodol ar gael cyn gwneud unrhyw gais dilynol i amrywio trwydded sy'n cael ei chyflwyno i'r Is-bwyllgor Trwyddedu.

Manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i ddiolch i'r swyddogion am eu hymweliad craff ag ardal 'Y Tymbl', Pontypridd, gan wneud sylwadau ar y deunydd teledu cylch cyfyng clir a'r sgiliau rheoli cadarnhaol a arddangoswyd gan ddeiliaid y drwydded safle ar y noson.

PENDERFYNWYD:-

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â **Deddf Trwyddedu 2003** a;
- b) Nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â **Deddf Gamblo 2005**.

18 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn Benderfyniad:-

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

19 Trwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 19.11.18 - 17.02.19:

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd fanylion i'r Pwyllgor am drwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod o 19 Tachwedd, 2018 tan 17 Chwefror, 2019.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.45 pm

**Y Cynghorydd A Fox
Cadeirydd.**